
Ysgol Uwchradd Y Rhyl
Rhyl High School

Changing Hearts, Minds and Futures

"Being the best we can be"

Newid Calonnau, Meddyliau a Dyfodol

"Bod y gorau y gallwn fod"



Athro / Athrawes Mathemateg a Cydlynydd Rhifedd

Cyflog Graddfa Athro / Athrawes TLR 2B

Dyddiad Dechrau: 5 Ebril 2027

Pennaeth / Headteacher:
Mr Philip Collins

Rhyl.high@denbighshire.gov.uk

01745 343533

www.rhylhigh.denbighshire.sch.uk

YSGOL UWCHRADD Y RHYL

RHYL HIGH SCHOOL

Ffordd Grange, Rhyl, Sir Ddinbych. LL18 4BY
Grange Road, Rhyl, Denbighshire. LL18 4BY

Rhyl High School

@rhylhigh

@rhylhigh

Annwyl Gydweithiwr,

Pwnc: Athro/Athrawes Mathemateg / Cydlynydd Rhifedd

Diolch am eich diddordeb yn swydd Athro/Athrawes Mathemateg / Cydlynydd Rhifedd yn Ysgol Uwchradd y Rhyl. O fewn y pecyn cais ceir manylion am yr ysgol, Manyleb Person a Disgrifiad Swydd. Mae ffurflen gais ar wahân ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych. Gellir hefyd ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr ysgol ar ein gwefan yn www.rhylhigh.denbighshire.sch.uk.

Roeddwn yn meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol pe bawn yn rhoi safbwynt personol i chi o'r ysgol er mwyn eich helpu i benderfynu a ydych am wneud cais. Mae Ysgol Uwchradd y Rhyl yn ysgol gyfun gydaddysgol 11–16 sy'n diwallu anghenion plant o bob gallu. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal o amddifadedd economaidd-gymdeithasol sylweddol. Ar hyn o bryd mae dros 30% o'n disgyblion yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru diweddaraf (2025) wedi dangos bod gan y Rhyl 4 o'r 10 ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae ein nod fel ysgol yn syml: rydym am i bawb fod cystal ag y gallant fod. Rydym am i bob unigolyn gyflawni ei orau personol beth bynnag fo'i dalentau a'i uchelgeisiau. Rydym yn ysgol sydd wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl bobl ifanc yn ein gadael yn bobl ifanc Ddewr, Dda, Hapus ac Iach. Mae ein disgwyliadau a'n safonau yn uchel. Mae gennym staff ymroddedig a gofalgar iawn sy'n gweithio'n galed i sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni ei orau personol. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 1188 o ddisgyblion, 66 o athrawon a 62 o aelodau staff cymorth.

Cyflawnir nodau a blaenoriaethau'r ysgol drwy system fugeiliol gref, ymrwymiad i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel ac ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r disgyblion, fel y gwelwch os byddwch yn ymweld â ni, yn gaffaeliad gwirioneddol i'n cymuned ac yn hynod gyfeillgar. Maent am gael addysg o ansawdd uchel a dod yn ddysgwyr llwyddiannus. Mae ein Llywodraethwyr yn hynod gefnogol wrth ein helpu i sicrhau bod pob disgybl yn cael yr addysg orau bosibl. Rydym hefyd yn credu'n gryf ym mhwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â rhieni i sicrhau bod pawb yn cyflawni eu gorau glas.

Arolygwyd yr ysgol gan Estyn ym mis Mai 2026 a chafodd ei rhoi yn y categori sydd angen Gwelliant Sylweddol. Argymhellion yr arolygiad oedd:

1. Gwella ansawdd yr addysgu fel bod disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da.
2. Cryfhau arweinyddiaeth a darpariaeth ar gyfer datblygiad cynyddol sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion.
3. Gwella presenoldeb.
4. Cryfhau arweinyddiaeth strategol ac atebolrwydd ar bob lefel, yn enwedig mewn perthynas ag Addysgu a Dysgu.
5. Mireinio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel bod arweinwyr ar bob lefel yn canolbwyntio'n fanwl ar effaith addysgu ar gynnydd a sgiliau disgyblion.

Bydd yr ysgol yn cael ei hailarolygu yn erbyn yr argymhellion ymhen tua 12 i 18 mis.

Pennaeth / Headteacher:
Mr Philip Collins

Rhyl.high@denbighshire.gov.uk

01745 343533

www.rhylhigh.denbighshire.sch.uk

YSGOL UWCHRADD Y RHYL

RHYL HIGH SCHOOL

Ffordd Grange, Rhyl, Sir Ddinbych. LL18 4BY
Grange Road, Rhyl, Denbighshire. LL18 4BY

Rhyl High School

@rhylhigh

@rhylhigh

Os ydych yn gyffrous wrth y posibilrwydd o chwarae rhan arwyddocaol wrth ein helpu i wireddu ein huchelgeisiau, yn credu y gall pob disgybl – waeth beth fo'i gefndir neu ei allu – lwyddo, ac yn angerddol dros ddarparu addysg ragorol, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Yn gyfnewid, byddwn yn gwarantu'r lefel orau bosibl o gefnogaeth.

Cymerwch amser i adolygu ein gwefan a'r pecyn gwybodaeth hwn. Yn y cyfamser, os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech ymweld â'r ysgol, cysylltwch â Chynorthwyydd Personol y Pennaeth, Mrs H Roberts, drwy e-bost ar hlr@rhylhigh.co.uk.

Diolch am eich diddordeb yn y swydd hon ac edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais. Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Gyda dymuniadau gorau,

P Collins

Phil Collins
Pennaeth

Cydlynydd Rhifedd Ysgol Gyfan (TLR 2B)

Yn atebol i

Dirprwy Bennaeth (Addysgu a Dysgu/Sgiliau)

Pwrpas y Swydd

Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ar gyfer rhifedd ar draws yr ysgol, gan sicrhau bod pob disgybl yn datblygu'r sgiliau rhifedd sydd eu hangen i gael mynediad at y cwricwlwm a chyflawni eu potensial. Bydd deiliad y swydd yn datblygu ac yn cynnal dulliau addysgu effeithiol sy'n gwella ansawdd y dysgu a'r cyflawniad yn barhaus i bob disgybl. Bydd yn arwain, monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth rhifedd ysgol gyfan, gan gefnogi adrannau i ymgorffori strategaethau rhifedd effeithiol yn gyson ar draws pob maes pwnc. Bydd yn sicrhau bod arferion gorau yn cael eu hadnabod a'u rhannu ar draws y cwricwlwm.

Prif Gyfrifoldebau

Arweinyddiaeth Strategol

- Cefnogi'r gwaith o greu a hyrwyddo gweledigaeth glir ar gyfer datblygu sgiliau rhifedd sy'n cael ei rhannu a'i deall gan bawb.
- Datblygu cynllun rhifedd trylwyr a manwl sy'n nodi'n glir flaenoriaethau ar gyfer gwella a'r meini prawf llwyddiant cysylltiedig.
- Darparu adroddiadau manwl sy'n nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn uniongyrchol a gasglwyd drwy weithredu calendr MER cynhwysfawr.
- Arwain mentrau ysgol gyfan sy'n gwella sgiliau rhifedd.
- Hyrwyddo diwylliant lle cydnabyddir mai cyfrifoldeb pob aelod o staff yw rhifedd.
- Chwarae rhan sylweddol yn natblygiad pob agwedd ar waith datblygu rhifedd yr ysgol, gan gynnwys polisïau a'u gweithrediad.
- Cadeirio cyfarfodydd penodol yn ymwneud â rhifedd.

Y Cwricwlwm ac Addysgu a Dysgu

- Gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod cyfleoedd priodol i ddatblygu sgiliau rhifedd yn cael eu cynllunio a'u hymgorffori ar draws eu meysydd cwricwlaidd.
- Datblygu dull cyson o ran disgwyliadau rhifedd, marcio ac adborth.
- Gweithio gydag Arweinwyr Cwricwlwm i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu rhifedd o fewn cynlluniau dysgu.
- Hyrwyddo arferion rhifedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dulliau addysgu o ansawdd uchel.
- Cydweithio'n agos â Phenaethiaid Adrannau a staff perthnasol eraill er mwyn sicrhau bod cynnydd disgyblion yn cael ei olrhain yn gadarn a bod rhaglenni cymorth yn cael eu datblygu a'u gweithredu'n effeithiol.

Monitro a Gwerthuso

- Sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd cadarn ar waith i adolygu safonau rhifedd ar draws y cwricwlwm.
- Monitro safonau rhifedd ar draws yr ysgol drwy:
    - Teithiau dysgu
    - Craffu ar lyfrau
    - Arsylwadau gwersi
    - Gweithgareddau llais y disgybl
    - Dadansoddi data
- Darparu adroddiadau manwl sy'n nodi'n glir gryfderau a meysydd i'w datblygu.
- Bod yn atebol am ddadansoddi data ac ymyriadau'n rheolaidd ac yn gadarn i bennu'r cynnydd a wneir gan unigolion a grwpiau o ddysgwyr.
- Cyfrannu at hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ysgol.
- Nodi a chydnabod meysydd llwyddiant i adrannau unigol a'r ysgol gyfan yn eu datblygiadau rhifedd.

Datblygiad Proffesiynol

- Darparu a threfnu dysgu proffesiynol ar ddatblygu strategaethau rhifedd effeithiol.
- Cyflwyno dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i staff ar ddatblygu sgiliau rhifedd.
- Ymgysylltu'n llawn â'r broses ADB (Adolygu Datblygiad a Pherfformiad) i sicrhau datblygiad proffesiynol eich hun ac eraill.
- Bod yn fodel rôl i eraill drwy ymddangosiad personol ac ymddygiad proffesiynol.
- Rhannu arferion gorau ac ymchwil addysgol berthnasol.

- Datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau effeithiol wrth geisio rhagoriaeth mewn ymarfer.

Cefnogi Disgyblion

- Sicrhau bod ymyriadau o ansawdd uchel ar waith fel bod disgyblion yn gwneud cynnydd disgwyliedig neu well.
- Sicrhau nad yw anfantais gymdeithasol nac economaidd nac amddifadedd yn rhwystrau i gyrhaeddiad uchel.
- Cefnogi rhaglenni ymyrraeth wedi'u targedu.
- Defnyddio data rhifedd yn effeithiol i olrhain, monitro a gwerthuso cynnydd, cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion ar draws adrannau a'r ysgol.
- Olrhain cynnydd grwpiau targed a monitro effaith ymyriadau rhifedd mewn cydweithrediad â'r CADY.

Partneriaeth a Chyfathrebu

- Datblygu a chynnal dulliau effeithiol o gyfathrebu gyda'r Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth, yr UDA, staff eraill, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, asiantaethau allanol a'r gymuned ehangach fel y bo'n briodol.
- Ymgysylltu â rhieni/gofalwyr i gefnogi datblygiad rhifedd a rheoli'r ddarpariaeth wybodaeth iddynt.
- Datblygu cysylltiadau gydag ysgolion cynradd clwstwr i gefnogi trosglwyddo.
- Gweithio gydag asiantaethau allanol ac arbenigwyr rhifedd lle bo'n briodol.

Manyleb y Person

Hanfodol

- Statws Athro Cymwys (SAC).
- Ymarferydd dosbarth llwyddiannus gyda thystiolaeth o ddeilliannau cryf i ddisgyblion.
- Dealltwriaeth ragorol o ddatblygiad rhifedd mewn addysg uwchradd.
- Gwybodaeth am strategaethau ymyrraeth rhifedd effeithiol.
- Y gallu i ddadansoddi data a gwerthuso effaith.
- Sgiliau cyfathrebu, hyfforddi a threfnu cryf.

- Y gallu i arwain cydweithwyr a dylanwadu ar ymarfer ar draws adrannau. **Dymunol**

- Profiad o arwain rhifedd.
- Profiad o gyflwyno dysgu proffesiynol.
- Profiad o arwain mentrau ysgol gyfan.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Disgwylir i'r Cydlynydd Rhifedd ddangos effaith drwy:

- Wella deilliannau rhifedd ar draws Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4.
- Gwella safonau rhifedd ar draws pynciau.
- Gweithredu strategaethau rhifedd yn gyson ar draws adrannau.
- Adborth cadarnhaol gan ddisgyblion a staff.
- Rhaglenni ymyrraeth rhifedd effeithiol.
- Tystiolaeth glir o ddatblygiad rhifedd o fewn prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.





Ynghylch Yr Ysgol

Nifer ar y gofrestr (Ion 2026)	1157
Canran FSM cyfartaledd 3 blynedd	30.7%
Canran Disgyblion ag IDP (Ion 2026)	9%
Cymhareb Disgybl–Athro	19%
Presenoldeb 2024/25	86.6%
Nifer y staff (Ion 2026)	130 (68 teachers and 62 support staff)

Canlyniadau TGAU'r Ysgol Gyfan 2024–2026

Mesur Perfformiad	**Haf 2024**	**Haf 2025**	**Haf 2026**
Capped 9	338.0	342.3	340.4
Sgôr Pwyntiau Llythrennedd	33.9	34.2	34.2
Sgôr Pwyntiau Rhifedd	30.2	29.6	29.4
Sgôr Pwyntiau Gwyddoniaeth	29.8	29.2	29.5
Sgôr Pwyntiau Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru	27.2	26.5	29.0



Ein Gweledigaeth

“Bod y gorau y gallwn fod”



- **Drosom ein hunain**
- **Dros ein hysgol**
- **Dros ein cymuned**
- **Rhannu a dysgu**
- **Profi a datblygu**
- **Bod yn llawn cymhelliant, yn wydn, yn hapus ac yn barod**

Ein Gwerthoedd

Fel ysgol rydym wedi ymrwymo i ddatblygu:

Pobl dda sy’n:

- Ofalgar
- Gonestrwydd
- Yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg
- Yn falch o fyw yng Nghymru

Pobl ddewr sy’n:

- Meddwl a gwneud y dewisiadau cywir
- Gwneud y peth cywir
- Bob amser yn ceisio hyd yn oed os ydynt yn gwneud camgymeriad
- Bob amser yn gwneud eu gorau glas

Pobl hapus sy’n:



- Gadarnhaol
- Hyderus
- Caredig
- Yn gwneud y mwyaf o bob cyfle

Pobl iach sy’n:

- Herio eu hunain
- Yn hunanymwybodol
- Yn gofyn am help
- Yn anelu at gyrraedd eu potensial drwy gydol eu hoes

Camau Nesaf

Dull Penodi
Cwblhewch y cais priodol ac ysgrifennwch ddatganiad cefnogol sy'n bodloni manyleb y person ac sy'n amlinellu eich:

- Rhesymau dros wneud cais am y swydd hon ac esboniad o'r hyn y byddwch yn ei gyfrannu i'r rôl.
- Profiadau hyd yma sy'n eich gwneud yn ymgeisydd addas ar gyfer y rôl hon.
- Cryfderau personol a phroffesiynol.

Nodiadau canllaw ar gwblhau'r datganiad cefnogol
Bydd rhestr fer yn cael ei llunio ar sail y ffurflen gais a'r datganiad cefnogol yn unig. Dylai ymgeiswyr egluro sut mae eu sgiliau a'u harbenigedd yn cyd-fynd â gofynion y swydd. Dylech roi enghreifftiau o brofiad diweddar a pherthnasol a thystiolaeth o effaith, gan gynnwys canlyniadau sy'n gysylltiedig â gwelliant ysgol a deilliannau dysgwyr.

Dylid cwblhau ceisiadau ar-lein drwy wefan www.denbighshire.gov.uk

Am ddulliau amgen o wneud cais, cysylltwch â gwasanaethau cwsmeriaid ar 01824706101.

Os na fyddwch wedi clywed gan yr ysgol o fewn tair wythnos, bydd y panel dethol wedi dewis ymgeiswyr eraill y maent yn credu sy'n cyd-fynd orau â phroffil y swydd hon. Er bod yr ysgol yn sicrhau bod pob ymgeisydd ar y rhestr fer yn derbyn adborth, yn anffodus ni allwn ddarparu adborth ar geisiadau eraill.

Geirdaon
Gofynnir i chi roi enwau dau ganolwr, a dylai un ohonynt fod yn eich Pennaeth/Cyflogwr presennol.

Amserlen Recriwtio
Dyddiad Cau Ceisiadau: 03.12.2026

Dyddiad Cyfweld: Wythnos yn dechrau 14.12.2026

Dyddiad Dechrau: 05.04.2027(Yn gynt os yn'n bosibl)


Rhyl High School
Ysgol Uwchradd Y Rhyl

Changing Hearts, Minds and Futures

"Being the best we can be"

Newid Calonnau, Meddyliau a Dyfodol

"Bod y gorau y gallwn fod"



Teacher of Maths and Numeracy Co-ordinator

Teachers pay scale plus TLR 2B

To start on 5th April 2027

Pennaeth / Headteacher:
Mr Philip Collins

Rhyl.high@denbighshire.gov.uk

01745 343533

www.rhylhigh.denbighshire.sch.uk

YSGOL UWCHRADD Y RHYL

RHYL HIGH SCHOOL

Ffordd Grange, Rhyl, Sir Ddinbych. LL18 4BY
Grange Road, Rhyl, Denbighshire. LL18 4BY

Rhyl High School

@rhylhigh

@rhylhigh

Dear Colleague,

RE: Maths Teacher / Numeracy Co-ordinator

Thank you for your interest in the position of Maths Teacher / numeracy Co-ordinator at Rhyl High School. Within the application pack are details of the school, a Person Specification and a Job Description. There is a separate application form that can be found on the Denbighshire County Council website. Further information about the school can also be found on our website www.rhylhigh.denbighshire.sch.uk

I thought it might be useful if I gave you a personal perspective of the school to help you to decide whether to apply. Rhyl High School is an 11 – 16 co-educational comprehensive school which meets the needs of children of all abilities. Rhyl High School serves an area of significant socio-economic deprivation. Currently over 30% of our pupils receive Free School Meals. The most recent Welsh Index of Multi Deprivation (2025) has shown that Rhyl has 4 of the top 10 most deprived wards in Wales.

Our aim as a school is simple, we want everyone to be the best they can be. We want every person to achieve their personal best whatever their talents and ambitions. We are a school that is committed to ensuring that all our young people leave us as Brave, Good, Happy and Healthy young people. Our expectations and standards are high. We have a highly committed and caring staff who are dedicated to ensuring each child achieves their personal best. The school currently has 1188 pupils, 66 teachers and 62 members of support staff.

The aims and priorities of the school are delivered through a strong pastoral system, a commitment to providing high quality learning experiences and an extensive range of extracurricular activities. The pupils, as you will see for yourself should you visit us, are genuinely an asset to our community and are incredibly friendly. They want to receive a high-quality education and to become successful learners. Our Governors are incredibly supportive in helping us ensure each pupil receives the very best education. We also belief strongly in the importance of working in partnership with our parents to ensure that everyone achieves their very best.

The school was Estyn inspected in May 2026 and was placed in the category of requiring Significant Improvement. The recommendations from the inspection are,

1. Improve the quality of teaching so that pupils of all abilities make good progress
2. Strengthen the leadership of and provision for the progressive development of pupil's literacy and numeracy skills.
3. Improve attendance.
4. Strengthen strategic leadership and accountability at all levels, in particular in relation to Teaching and Learning.
5. Refine self-evaluation and improvement planning so that leaders at all levels focus precisely on the impact of teaching on pupil's progress and skills.

The school will be reinspected again the recommendations in approximately 12 to 18 months.

Pennaeth / Headteacher:
Mr Philip Collins

Rhyl.high@denbighshire.gov.uk

01745 343533

www.rhylhigh.denbighshire.sch.uk

YSGOL UWCHRADD Y RHYL

RHYL HIGH SCHOOL

Ffordd Grange, Rhyl, Sir Ddinbych. LL18 4BY
Grange Road, Rhyl, Denbighshire. LL18 4BY

Rhyl High School

@rhylhigh

@rhylhigh

If you are excited by the prospect of playing a significant role in helping us to achieve our ambitions, have a belief that all pupils, no matter what their background or ability, can achieve, and have a passion for providing outstanding education, then we would love to hear from you. In return, we will guarantee the very best level of support.

Please take time to review our website and this information pack. In the meantime, should you wish to receive further information or would like to visit the school, please do not hesitate to contact the Headteachers PA, Mrs H Roberts via email on hlr@rhylhigh.co.uk

Thank you for your interest in this post and I look forward to receiving your application. I look forward to hearing from you.

With best wishes,

P Collins

Phil Collins
Headteacher

Whole school Numeracy Coordinator (TLR 2B)

Responsible to

Deputy Headteacher (Teaching and Learning/Skills)

Purpose of the Post

Provide effective leadership and management of numeracy across the school, ensuring that all pupils develop the numeracy skills required to access the curriculum and achieve their potential. The post holder will build and maintain effective teaching approaches which continually enhances the quality of learning and achievement for all pupils. The post holder will lead, monitor and evaluate whole-school numeracy provision, supporting departments to embed effective numeracy strategies consistently across all subject areas. The post holder will ensure best practice is identified and shared across the curriculum.

Key Responsibilities

Strategic Leadership

- To support the creation and drive a clear vision for the development of numeracy skills which is shared and understood by all.
- To develop a thorough and detailed numeracy plan clearly identifying priorities for improvement and associated success criteria.
- Provide detailed reports, clearly identifying strengths and areas for development based on robust first-hand evidence, gathered through the implementation of a comprehensive MER calendar.
- Lead whole-school initiatives that improve numeracy skills.
- Promote a culture where numeracy is recognised as the responsibility of all staff.
- To play a significant role in the development of all aspects of the school's numeracy development, including its policies and their implementation.
- To chair the agenda for any specific numeracy meetings.

Curriculum and Teaching & Learning

- To work with colleagues in ensuring that appropriate opportunities to develop numeracy skills are planned and embedded across their curriculum area.
- Develop a consistent approach to numeracy expectations, marking and feedback.

- Work with Curriculum Leaders to identify opportunities for numeracy development within schemes of learning.
- Promote evidence-informed numeracy practices and high-quality teaching approaches.
- To liaise closely with Heads of Department and other appropriate staff to ensure pupil progress is tracked robustly and programmes of support developed and implemented effectively.

Monitoring and Evaluation

- To ensure there is robust QA in place for the review of numeracy standards across the curriculum
- To monitor standards of numeracy across the school through:
    - Learning walks
    - Book scrutinies
    - Lesson observations
    - Pupil voice activities
    - Data analysis
- Provide detailed reports, clearly identifying strengths and areas for development
- To be accountable for the regular and robust analysis of data and interventions to determine the progress made by individuals and groups of learners.
- Contribute to self-evaluation and school improvement planning.
- To identify and recognise areas of success for individual departments and the school as a whole in its numeracy developments.

Professional Development

- To provide and organise professional learning on developing effective numeracy strategies.
- To deliver high quality professional learning for staff in the development of numeracy skills.
- To engage fully with the PDR process to ensure the professional development of self and others.
- Be a role model to others through personal presentation and professional conduct.
- Share best practice and relevant educational research.
- To develop effective networks and partnerships in the pursuit of excellent practice.

Supporting Pupils

- To ensure that high quality interventions are in place to ensure that pupils make expected or better progress.

- To ensure that social, economic disadvantage and deprivation are not barriers to high achievement.
- Support targeted intervention programmes.
- To make effective use of numeracy data, to track, monitor and evaluate the progress, achievement and attainment of pupils across departments/school.
- Track the progress of targeted groups and monitor the impact of numeracy interventions in liaison with the ALNCo.

Partnership and Communication

- To develop and maintain effective methods of communication with the Headteacher, Deputy Headteacher, SLT, other staff, pupils, parents, governors, external agencies and the wider community as appropriate.
- Engage parents/carers in supporting numeracy development and manage the provision of information to parent/carers
- Develop links with feeder primary schools to support transition.
- Work with external agencies and numeracy specialists where appropriate.

Person Specification

Essential

- Qualified Teacher Status.
- Successful classroom practitioner with evidence of strong pupil outcomes.
- Excellent understanding of numeracy development in secondary education.
- Knowledge of effective numeracy intervention strategies.
- Ability to analyse data and evaluate impact.
- Strong communication, coaching and organisational skills.
- Ability to lead colleagues and influence practice across departments.

Desirable

- Experience of numeracy leadership.
- Experience of delivering professional learning.
- Experience of leading whole-school initiatives.

Key Performance Indicators

The Numeracy Coordinator will be expected to demonstrate impact through:

- Improved numeracy outcomes across KS3 and KS4.
- Improved standards of numeracy across subjects.
- Consistent implementation of numeracy strategies across departments.
- Positive pupil and staff feedback.
- Effective numeracy intervention programmes.
- Clear evidence of numeracy development within self-evaluation and improvement planning processes.





About the School

Number on Roll (Jan 2026)	1157
% FSM 3 Year Average	30.7%
% Pupils with an IDP (Jan 2026)	9%
Pupil Teacher Ratio	19%
Attendance 2024/ 25	86.6%
Number of staff (Jan 2026)	130 (68 teachers and 62 support staff)

Whole School GCSE Results 2024- 2026

Performance Measure	**Summer 2024**	**Summer 2025**	**Summer 2026**
Capped 9	338.0	342.3	340.4
Literacy Points Score	33.9	34.2	34.2
Numeracy Points Score	30.2	29.6	29.4
Science Points Score	29.8	29.2	29.5
Welsh Baccalaureate Skills Challenge Points Score	27.2	26.5	29.0



Our Vision



"Being the best we can be"

- **For ourselves**
- **For our school**
- **For our community**
- **To share and learn**
- **To experience and grow**
- **To be motivated, resilient, happy and ready**

Our Values

As a school we are committed to developing

Good people who are

- Caring
- Honest
- Know the difference between right and wrong
- Proud to live in Wales

Brave people who

- Think and make the right choices
- Do the right thing
- Always try even if they get it wrong
- Always do their best

Happy people who are



- Positive
- Confident
- Kind and
- Make the most of every opportunity

Healthy people who

- Challenge themselves
- Are self-aware
- Ask for help and
- Aim to reach their potential throughout life.

Next Steps

Method of Appointment

Please complete the appropriate application and write a supporting statement which meets the person specification and outlines your:

- Reasons for applying for this position and an explanation of what you will bring to the role.
- Experiences to date which you feel make you a situatable candidate for this role.
- Strengths both personal and professionally.

Guidance notes on completing the support statement

A shortlist will be drawn up on the basis of the application from and supporting statement only. Candidates should explain how their skills and expertise match the demands of the post. You should give examples of recent and relevant experience and evidence of impact, including outcomes linked to school improvement and learner outcomes.

Applications should be completed online via the website www.denbighshire.gov.uk

For alternative methods of applying, please contact customer services on 01824706101

If you have not heard from the school within three weeks, then the selection panel will have chosen other candidates who they believe best fit the profile for this post. While the school ensures all shortlisted candidates receive feedback, unfortunately we cannot provide feedback on other applications.

References

You are asked to give the names of two referees, one of which should be your current Headteacher/Employer.

Recruitment Timetable

Application Closing Date: 03.12.2026

Interview Date: Week beginning 14.12.2026

Start Date: 05.04.2027 (sooner if possible)